Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant
World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being
GIG Cymru NHS Wales Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Iechyd Rhyngwladol
International Health

# CYLCHLYTHYR

RHIFYN 3: MAI 2024

## Penodi Eluned Morgan yn Hyrwyddwr Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Menter Economi Llesiant Ewrop



Mae Dr Hans Henri P. Kluge, Cyfarwyddwr Rhanbarthol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Ewrop, wedi penodi Eluned Morgan yn Hyrwyddwr Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Menter Economi Llesiant Ewrop. Ar hyn o bryd Eluned Morgan yw Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (y Deyrnas Unedig). Mae'r penodiad personol hwn yn cydnabod ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet Morgan i hybu cyfraniadau'r sector iechyd at economi llesiant a hyrwyddo agwedd cymdeithas gyfan at lesiant.

Mae Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Swyddfa Fenis Sefydliad Iechyd y Byd gan helpu i roi Economi Llesiant ar waith yng Nghymru a thu hwnt, a chefnogi Ysgrifennydd y Cabinet. Mae'r gwaith hwn wedi cryfhau rôl fyd-eang a blaenllaw Cymru fel 'safle arloesi byw' ar gyfer llesiant a ffyniant i bawb, gan gasglu tystiolaeth, datblygu offer newydd, a llywio Iechyd fel Economi Sylfaenol yng Nghymru. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yma: Buddsoddi Cynaliadwy ar gyfer Iechyd a Llesiant; Swyddfa Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Buddsoddi mewn Iechyd a Datblygiad (Fenis, Yr Eidal).

Gallwch ddarllen mwy YMA. (Saesneg yn unig)



# Dinasyddiaeth Fyd-eang


## Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang




**Yng Nghymru**, mae Dinasyddiaeth Fyd-eang yn ddangosydd nod llesiant sy'n gyfrifol yn fyd-eang fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Mae'r Cenhedloedd Unedig**


yn egluro mai 'Dinasyddiaeth fyd-eang yw'r term cyffredinol am weithredoedd cymdeithasol, gwleidyddol, amgylcheddol ac economaidd unigolion a chymunedau byd-eang ar raddfa fyd-eang… Mae dinasyddiaeth fyd-eang wedi'i gwreiddio yn y Nodau Datblygu Cynaliadwy drwy SDG 4 – Addysg o Ansawdd'





### Gwerthoedd





### Mae Dinasyddiaeth Fyd-eang yn




### Ein Modiwla




### Beth allwch chi ei wneud?

- Herio ystrydebau
- Cwestiynu safbwyntiau
- Ymgysylltu'n weithredol â'ch cymuned a'r byd - gall sut rydych chi'n pleidleisio, yn gweithio, yn siopa, yn teithio ac yn ymgyrchu i gyd wneud gwahaniaeth

### Adnoddau Ychwanegol:

Beth sydd angen i chi ei wybod am addysg dinasyddiaeth fyd-eang | UNESCO
Beth yw Dinasyddiaeth Fyd-eang? - Adnoddau addysg | Oxfam GB
Astudiaethau Achos Dinasyddiaeth Fyd-eang | Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Adeiladu Cymru o Ddinasyddion Byd-eang Gweithredol | Sefydliad Materion Cymreig

**Dysgu.gig.cymru**

chwilio am ' Rhaglen Dinasyddion Byd-eang'

crci · ihcc
Canolfan Rhyngwladol Cydlynu Iechyd
International Health Coordination Centre

# Gweithdy Gwyliadwriaeth Diogelu Iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn India

**Dyluniodd a chyflwynodd Giri Shankar, Chris Williams a Sophie Harker o is-adran diogelu iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru weithdy ar "Ddulliau newydd ar gyfer canfod a chadw gwyliadwriaeth ar afiechydon" yn 51ain Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Meddygaeth Ataliol a Chymdeithasol India (IAPSM), a gynhaliwyd ym Mangaluru, India ar 7 Chwefror 2024. Cynhaliwyd y gynhadledd dros 5 diwrnod ac roedd cyfanswm o 1300 o gynrychiolwyr cofrestredig yn bresennol. Roedd 22 o weithdai ac 20 sesiwn lawn.**



**Roedd y gweithdy 3 awr hwn yn canolbwyntio ar dri maes penodol sef:**


1. **Amcanion gwyliadwriaeth**
2. **Dulliau gwyliadwriaeth**
3. **Effaith ar Bolisi**

**Yn y sesiwn hynod ryngweithiol hon, cyflwynwyd y 25 o gynrychiolwyr i nifer o enghreifftiau o Gymru, gan gynnwys enghreifftiau o'r Pandemig COVID-19 diweddar. Yna canolbwyntiodd y trafodaethau ar sut y gellid trosi rhai o'r prosiectau a'r dulliau i'r cyd-destun Indiaidd. Roedd nifer dda o enghreifftiau o India y bu'r tîm yn eu trafod ar gyfer y cyd-destun Cymreig.**

**Yn ddiweddarach yn y gynhadledd, cynhaliodd Giri Shankar sgwrs hefyd yn y sesiwn lawn ar 10 Chwefror ar "Rôl gwyliadwriaeth wrth reoli clefydau heintus - y profiad rhyngwladol".**

**Yn dilyn y gweithdy mae IAPSM wedi gofyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru drafod cydweithredu pellach y mae diogelu iechyd yn arwain arnynt.**

## Polisïau Iechyd i Bawb
## Cyd-Fuddion Gweithredu Rhwng Sectorau




Mae'r Arsyllfa Ewropeaidd ar Systemau a Pholisïau Iechyd wedi cyhoeddi astudiaeth newydd o'r enw 'Polisïau Iechyd i Bawb: Cyd-Fuddion Gweithredu Rhwng Sectorau'.

Mae Polisïau Iechyd i Bawb yn newid y ddadl ynghylch gweithredu rhwng sectorau, o un sy'n canolbwyntio ar iechyd a'r sector iechyd i un sy'n seiliedig ar gyd-fuddiannau – dull 'Polisïau Iechyd i Bawb'. Mae'n defnyddio'r Nodau Datblygu Cynaliadwy fel fframwaith ar gyfer nodi nodau ar draws sectorau ac mae'n crynhoi tystiolaeth ar hyd dwy echelin achosol.

I lawrlwytho'r astudiaeth, cliciwch YMA. (Saesneg yn unig)

---

## Ceisiadau ar agor ar gyfer Ysgol Haf yr Arsyllfa 2024
## LLYWIO ARGYFWNG Y GWEITHLU IECHYD: ARLOESI A THRAWSNEWID GOFAL IECHYD

21 Gorffennaf - 27 Gorffennaf 2024
San Servolo, Fenis (Yr Eidal)

Gallwch wneud cais YMA.

OBSERVATORY VENICE SUMMER SCHOOL

---

## Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol 2023/24

Mae'r cynllun ILO, sy'n anfon pobl o Gymru ar leoliadau 8 wythnos yn Affrica wedi ailagor ar gyfer ceisiadau. Mae'r rhaglen ILO wedi'i hanelu at reolwyr ac arweinwyr profiadol sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru.

Rhaid i ddarpar gyfranogwyr fod yn gwbl ymroddedig ac yn gallu ymgymryd â lleoliad.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth YMA.




Mae 2.46 miliwn o blant o dan 15 oed yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn y DU. Mae cyfraddau tlodi wedi parhau'n uchel yng Nghymru dros y ddau ddegawd diwethaf gyda phlant yn gyson yn wynebu'r risg uchaf o fyw mewn tlodi o blith unrhyw grŵp oedran. Mae'r argyfwng costau byw wedi cynyddu'r risg o effeithiau negyddol tlodi ar iechyd.

Mae'r Adroddiad Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol diweddaraf gan Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn edrych ar effaith tlodi ar fabanod, plant a phobl ifanc ac yn crynhoi dulliau rhyngwladol i'w atal a/neu ei leihau.

Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod dull amlasiantaeth yn hanfodol o ran cynnwys amrywiaeth o bartneriaid, fel y llywodraeth, awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, asiantaethau tai, landlordiaid, addysg, gwasanaethau iechyd meddwl a'r sector preifat. Mae'n gweithio'n fwyaf effeithiol pan gaiff ei ategu gan ddealltwriaeth gyffredin o niwed a'r camau blaenoriaeth sydd eu hangen i fynd i'r afael ag ef.

Mae’r adroddiad yn cynnwys dulliau llwyddiannus ac atebion posibl i fynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau negyddol ar fabanod, plant a phobl ifanc. Gall buddion cyffredinol i blant sy'n rhoi trosglwyddiadau arian parod i rieni i'w gwario fel y gwelant yn dda yn gallu mynd i'r afael ag iechyd a llesiant plant a'u gwella. Mae rhaglenni diogelwch cymdeithasol yn cysylltu teuluoedd â gofal plant, bwyd maethlon ac addysg o safon i roi cyfle teg i bob plentyn mewn bywyd.

Meddai Leah Silva, Uwch-swyddog Polisi, “Mae symud gwariant cyhoeddus tuag at ymyrryd ac atal cynnar yn hanfodol ar gyfer datblygu polisïau mwy effeithiol ac effeithlon i fynd i'r afael â thlodi plant.”

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bolisïau llwyddiannus yn yr Alban a Slofenia. Yn yr Alban mae dulliau lleol a chenedlaethol o atal neu leihau tlodi yn targedu'r grwpiau mwyaf mewn perygl (gan gynnwys plant) ac maent wedi canolbwyntio ar sicrhau gweithredu effeithiol a monitro canlyniadau. Gostyngodd plant mewn “tlodi parhaus” yn yr Alban i 10% yn 2019/20 o gymharu â 14% yn 2007/08. Yn Slofenia maent wedi canolbwyntio ar ofal plant a diogelwch cymdeithasol wedi'u cysoni a chanolbwyntio eu dull ar deuluoedd yn hytrach nag ar blant unigol. Mae eu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Gwarant Plant yn canolbwyntio ar feysydd sy'n effeithio ar gyfraddau tlodi plant gan gynnwys gofal, addysg, iechyd, maeth a thai.

Nid oes gan Llywodraeth Cymru bŵer llawn (datganoledig) dros lawer o feysydd polisi sy'n ysgogi cyfraddau tlodi plant. Serch hynny, ym mis Ionawr 2024, adnewyddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Tlodi Plant Cymru. Ynghyd â deddfwriaeth ac ysgogiadau polisi eraill, m ae Cymru wedi gosod amgylchedd galluogi unigryw i flaenoriaethu camau gweithredu i amddiffyn plant yn erbyn effeithiau tlodi a mynd i'r afael â'i achosion sylfaenol.

Mae Moses Wasswa Mulimira o’r Ymddiriedolaeth Gwella Iechyd Trofannol (THET) wedi ymuno â Grŵp Gweithgarwch Iechyd Rhyngwladol GIG Cymru Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (IHCC), sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaethau yng Nghymru, a rhanddeiliaid allweddol, fel cynrychiolydd pobl ar wasgar a chynrychiolydd THET.


## Adroddiad Arbenigwyr yn Ein Plith




**Arbenigwyr yn Ein Plith | Cydnabod cyfraniad staff y GIG ar wasgar i iechyd byd-eang**

Mae'r adroddiad polisi hwn gan THET yn amlygu'r cyfraniad y mae staff y GIG ar wasgar yn ei wneud i iechyd byd-eang. Gan archwilio eu heffaith a’r heriau a wynebwyd ganddynt, mae’r adroddiad hwn yn dangos i ni sut y gallwn alluogi, ymgysylltu a grymuso’r arbenigwyr yn ein plith.

Mae Arbenigwyr yn Ein Plith yn archwilio’r cyd-destun presennol ehangach ac yn hyrwyddo lleisiau ymylol staff y GIG ar wasgar o fewn yr amgylchedd ehangach, sy’n aml yn elyniaethus. Gwyddom fod staff y GIG ar wasgar bob amser wedi chwarae rhan werthfawr mewn Partneriaethau Iechyd. Yr hyn nad oeddem yn ei wybod oedd maint eu hymgysylltiad, yr heriau a wynebwyd, na'r ffordd orau i godi eu lleisiau i ddangos yr effaith y gall y rhai sydd ar wasgar ei chael ar brosiectau iechyd byd-eang.



## Sgwrs Penderfynyddion Cymdeithasol Iechyd Byd-eang ac Iechyd y Cyhoedd Byd-eang
## 29 Mai 2024
## 6pm – 8pm

Bydd y digwyddiad hwn yn lansio canlyniadau o'r Astudiaeth Penderfynyddion Cymdeithasol Byd-eang (GSDS), yr astudiaeth genedlaethol gynrychioliadol gyntaf o 8 gwlad sydd wedi'i chynllunio'n benodol i ddogfennu penderfynyddion cymdeithasol mewn gwledydd incwm isel, canolig ac uchel a sut maent yn effeithio ar iechyd a llesiant y boblogaeth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu geisiadau am lety, cysylltwch â sphevent@bu.edu.

Mae rhagor o wybodaeth am sut i gofrestru ar gyfer y digwyddiad hwn ar gael YMA.

# Digwyddiadau a Chynadleddau i ddod

uhc2030

## 77ain Cynulliad Iechyd y Byd

**Bydd yn cael ei gynnal yng Ngenefa, Y Swistir rhwng 27 Mai a 1 Mehefin 2024.**

Bob blwyddyn, mae Aelod-wladwriaethau Sefydliad Iechyd y Byd yn dod at ei gilydd i gytuno ar arweinyddiaeth, blaenoriaethau, cyllidebau a pholisïau Sefydliad Iechyd y Byd. Cynhelir Cynulliad Iechyd y Byd eleni yng Ngenefa, Y Swistir rhwng 27 Mai a 1 Mehefin 2024.

Eleni, mae UHC2030 yn canolbwyntio ar y penderfyniad ar Gyfranogiad Cymdeithasol i gael mynediad at ddarpariaeth iechyd i bawb, iechyd a llesiant, eiriolaeth etholiadol, ac adeiladu systemau iechyd sy'n ymateb i rywedd ar gyfer iechyd i bawb (UHC).

Gweler YMA am fanylion y digwyddiad.

## Wythnos Iechyd y Cyhoedd Ewrop

13 Mai - 17 Mai

Nod Wythnos Iechyd y Cyhoedd Ewrop (EUPHW) yw codi ymwybyddiaeth am iechyd y cyhoedd a hybu cydweithio ymhlith y gymuned iechyd y cyhoedd yn Ewrop.

Mae EUPHW yn fenter flynyddol a drefnir ac a gydlynir gan EUPHA. Dechreuodd yn 2019 ac mae'n dal i dyfu. Darllenwch fwy am y rhifynnau blaenorol.

Bydd y chweched EUPHW yn digwydd rhwng 13 Mai a 17 Mai, 2024!

*Health is a political choice!*

EUROPEAN PUBLIC HEALTH WEEK

Co-funded by the European Union

# Cysylltu â Ni

**Os oes gennych unrhyw straeon neu brosiectau rhyngwladol yr hoffech iddynt gael sylw yn ein cylchlythyrau sydd ar ddod, anfonwch e-bost at:**

**Laura.holt@wales.nhs.uk**

**Daniela.stewart@wales.nhs.uk**